# Gwefannau pornograffig

1 Hydref 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Medi 2013, pan wnaethoch ofyn y canlynol:

*Sawl ymgais a wnaed i weld gwefannau pornograffig yn y Cynulliad Cenedlaethol drwy ei rwydwaith cyfrifiadurol/gweinyddion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?*

Dim ond ar gyfer y tri mis diwethaf y mae ein meddalwedd fonitro yn darparu data. Yn ystod y tri mis diwethaf, cafwyd 257 o ymgeisiau i weld cynnwys sydd wedi'i gategoreiddio fel "pornograffi" o adnoddau'r Cynulliad rhwng 08/06/2013 a 06/09/2013.

Mae'r Cynulliad yn defnyddio seilwaith caledwedd sydd wedi'i gynllunio i ddiogelu ei ddefnyddwyr rhag gweld deunydd o natur amhriodol neu a allai ddwyn anfri ar y Cynulliad. Mae'r seilwaith hwn yn gweithio mewn partneriaeth â pholisi defnydd mewnol y Cynulliad sydd wedi'i ddylunio i roi gwybod i ddefnyddwyr am eu cyfrifoldebau.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn
www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost / Email: Buddug.Saer@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh**

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**